

Helo bawb,

Diolch i'r rheini a ddaeth i'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cyfarfod â Gweinidog yr Economi ar 9 Tachwedd am 9am (cyngyfarfod ar 8 Tachwedd).

Gwnaethom gytuno y byddai dau bapur; byddai'r un gyntaf ar y Costau Byw yn fwy sylweddol, gyda phapur byrrach ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Roedd gan bawb gyfraniadau i'w gwneud at y papur Costau Byw, felly cytunwyd y byddem yn creu cyflwyniad cydweithredol ar draws adrannau cytunedig a fyddai'n cael ei ddrafftio i ddechrau gan arweinydd/arweinwyr, ond gyda chyfle wedyn i bawb roi sylwadau ac ychwanegu ato.

Gwnaethom gytuno ar strwythur i'r papur, gyda'r arweinydd cychwynol yn llunio drafft o –

- Enghreifftiau o weithgareddau a chymorth cymunedol a oedd eisoes yn digwydd – Hazel Lloyd Lubran
- Yr effaith ar leoliadau cymunedol a'u rôl fel asedau byw – Gareth Coles a Miranda Glen
- Sicrhau bod cymorth busnes hefyd yn cynnwys y sectorau cymdeithasol a gwirfoddol - Derek Walker
- Gwirfoddoli ymhlith Cyflogeion – Sam Stensland
- Sut rydym yn cynyddu ein gwydnwch ar gyfer y dyfodol – Adam Kennerley a Michelle Rowson-Woods
- Yr effaith ar staff, cyflogau a'r cyflog byw gwirioneddol – San Leonard

Byddai'r ail bapur byrrach ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei lunio gan CGGC cyn cael mewnbwn/sylwadau pawb.

Amserlen –

- Cyflwyno cyflwyniadau drafft i CGGC (fharris@wcva.cymru) erbyn dydd Gwener 14 Hydref
- CGGC i ddrafftio papur o'r cyflwyniadau a'i rannu erbyn dydd Mercher 19 Hydref
- Sylwadau ar y papur drafft i CGGC erbyn dydd Mawrth 25 Hydref
- CGGC i gyflwyno'r papurau i Lywodraeth Cymru erbyn dydd Gwener 28 Hydref

Byddwn hefyd yn ceisio trefnu cyfarfod cynllunio pellach naill ai ar 20 neu 21 Hydref i gydnabod bod yr amgylchedd yn newid yn gyflym yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod ein gofynion a'n cynnwys yn gyfredol.

Wedi'i atodi er diddordeb ac i'ch helpu i lunio eich cyfraniadau at y papur mae'r cyflwyniad i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ychydig o drawstorri yn hwn y gallwn ni ei ddefnyddio, gan gynnwys y gofynion o ran cyflogau.

Diolch

Matt